**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/536/21

Bethan Davies
Clerc
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

01 Ebrill 2021

Annwyl Bethan,

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 10 Mawrth, addewais roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ddull Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o gyllido ymchwil yng Nghymru.

CCAUC sy'n penderfynu sut i ddosbarthu cyllid a ddyrannir iddo gan Lywodraeth Cymru, ond gan ystyried y blaenoriaethau a nodir yn llythyrau cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg. Mae'r Llywodraeth hon wedi pwysleisio bod Ymchwil, ac yn enwedig Ymchwil Ansawdd, yn flaenoriaeth.

Cyllid ar gyfer Ymchwil yw'r rhan fwyaf o ddyraniadau cyllid CCAUC i brifysgolion yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn dyrannu tua £71m yn flynyddol drwy ei brif ddull cyllido ar sail fformiwla, Ymchwil Ansawdd. Caiff cyllid Ymchwil Ansawdd ei ddarparu ar sail canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, sy'n asesu ansawdd ymchwil ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig.

Mae CCAUC hefyd yn cefnogi arloesi ac ymgysylltu yn ein sefydliadau, gan gynnwys gweithgarwch cenhadaeth ddinesig, drwy ei Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, a ailsefydlwyd yn 2020-21. Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa'n dyrannu tua £7.5m y flwyddyn gyda chymorth Strategaethau Ymchwil ac Arloesi tair blynedd.

Yn ogystal, mae CCAUC yn darparu tua £6.5m o gyllid y flwyddyn i sefydliadau ar gyfer hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac mae'n cefnogi nifer o fentrau ymchwil, megis Sêr Cymru.

Yn 2020-21, dosbarthodd CCAUC gyfanswm o £9.430m o gyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch a ddyrannwyd iddo gan Lywodraeth Cymru. Darparwyd £5.950m o'r cyllid hwnnw gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

Mae manylion dyraniadau cyllid CCAUC, ac yn benodol ei gymorth ar gyfer ymchwil ac arloesi yng Nghymru, ar gael yn: https://www.hefcw.ac.uk/cy/cyllido/

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y £44m o gyllid cyfalaf a ddyrannwyd i CCAUC gan y Gweinidog Addysg ar 9 Mawrth 2021, eglurais i'r Pwyllgor na ddyrannwyd y cyllid hwn at ddibenion ymchwil, ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gan ein prifysgolion.

Ar 10 Mawrth cyhoeddodd CCAUC ei gylchlythyr [https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2021/03/W21-09HE-Additional-Capital-Funding-2020-21.pdf](https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2021/03/W21-09HE-Additional-Capital-Funding-2020-21.pdf) [Saesneg yn unig] sy'n amlinellu'r sail ar gyfer dyrannu'r cyllid cyfalaf ychwanegol hwn i sefydliadau, a manylion ei ddull o fonitro'r gwariant. Bydd CCAUC hefyd yn rhoi adroddiad fis nesaf i'r Gweinidog Addysg ar ddosbarthiad ac effaith y cyllid ychwanegol a ddarparwyd i gefnogi sefydliadau a myfyrwyr yn ystod y pandemig.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd